YSGOL BRYNREFAIL

ENNILLWYR !!!!
CWPAN PÊL DROED CYMRU dan 14

Ar ddydd Sadwrn 14eg o Fai 2011 enillodd tîm bel droed genod dan 14, Gwpan Pêl Droed Cymru trwy guro Ysgol Whitchurch, Caerdydd o 6-0. Fe chwaraewyd y gêm ar gae Park Hall, Croesoswallt, cartref T.N.S., a da oedd gweld torf o rieni a ffrindiau yn bresennol i gefnogi.

O'r chwiban cyntaf fe chwaraeodd tîm Brynrefail bel droed bwriadus, y taclo'n deg ond yn galed, y symudiadau yn llawn o basio destlus a'r tîm oll yn cyfrannu'n hael.

Er gorau gôl geidwad Whitchurch, gafodd gêm wych, fuan iawn y sgoriwyd y gôl gyntaf ac yr oedd hynny ddim ond yn sbardun i fwy o chwarae da trwy'r hanner cyntaf a'r sgôr ar ei ddiwedd yn 4-0. Dechreuodd yr ail hanner ac yn fuan sefydlwyd yr un patrwm o bwyso a phwyso ar gôl Whitchurch gyda'r rhyngbasio yn well na'r hanner cyntaf hyd yn oed. Ar ddiwedd y gêm fe drechwyd Ysgol Whitchurch o 6-0 gyda Lois Regan yn sgorio 'hat trick' ac Alaw Hughes, Mari Gibbard a Kushla Everitt-Kingston yn sgorio'r goliau eraill a bu gorfoledd pan godwyd y gwpan gan y capten, Mari Gibbard.

Rhaid hefyd llongyfarch a diolch i holl staff yr Adran Gorfforol ond yn enwedig y rheolwr Mr Gareth Davies am ei waith parod yn paratoi a chefnogi'r tîm

Genod Brynrefs – da 'de